Archwilio Cymru
Audit Wales

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chy
Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru

**Cyfeirnod:** AC498/caf

**Dyddiad cyhoeddi:** 28 Mai 2025

Annwyl Jenny

## Craffu ôl-ddeddfwriaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Diolch i chi am eich llythyr 19 Mai. Croesawaf ymchwiliad y Pwyllgor a byddwn yn falch o fynd iddo ar 30 Mehefin yn unol â'r gwahoddiad. Byddwn yn cysylltu â'r tîm clercio yn unol â'ch awgrymiad.

Bydd llawer o'r hyn sydd gennym i'w ddweud yn adeiladu ar ein hadroddiad diweddar. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol y byddwn am ymhelaethu ar faterion y mae'r adroddiad yn cyfeirio atynt sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor; er enghraifft, ein safbwynt ynghylch sut mae fy nyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth yn cael eu fframio yn erbyn cefndir y nifer cynyddol o gyrff sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd ac effeithiau diwygio'r Senedd.

Mae pwysau eraill wedi cyfyngu ar ein gallu i ymateb yn ystod cyfnod ymgynghori cychwynnol y Pwyllgor. Rwy'n deall bod cydweithwyr Archwilio Cymru eisoes wedi trafod gyda'r tîm clercio y byddai cyfle i ymateb yn ysgrifenedig ar ôl y sesiwn dystiolaeth a chyn gweddill ymchwiliad y Pwyllgor. Gobeithio y bydd hynny'n dderbyniol i chi a'r Pwyllgor ond allech roi gwybod i mi os na fydd hyn yn iawn.

Yr eiddoch yn gywir



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**